

**Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin**

**Dydd Iau 18 Chwefror 2016**

**a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin, Caerfyrddin am 6pm**

**Yn bresennol:**

Jonathan Tudor (JT) - Ysgrifennydd

**Aelodau:**

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd

Geoff Williams (GW)

Glyn Evans (GE)

Richard Leggett (RL)

Chris Rankin (CR)

Jane Evans (JE)

Jillie Gardiner (JG)

**Ymgynghorwyr/ Sylwedyddion/ Siaradwyr/ Aelodau o'r Cyhoedd**

Phil Stone (PS) – Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Glyn Lloyd-Jones (GLJ)

Nigel Powell (NP) – CSG (ar ran Alan Warner)

**Ymddiheuriadau (Aelodau)**

David Stacey (DS)

Caroline Evans (CE)

Ed Percy (ED)

Alan Warner (AW) – Aelod a benodwyd ar ran CSC

**Ymddiheuriadau (Ymgynghorwyr/Sylwedyddion)**

Y Cyng. Deryk Cundy – CSC Cadeirydd

Pwyllgor Craffu Cymunedau'r CS

Eric Davies (ED)

Keith Morgan (KM)

\*Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin

EITEM	CAM GWEITH- REDU
<b>Eitem 1 Croeso</b> – Croesawodd MH bawb i'r cyfarfod.	
<b>Eitem 2 Aelod Newydd</b>  Croesawodd MH Richard Leggett, aelod newydd, i'r cyfarfod.	
<b>Eitem 3 Ymddiheuriadau</b>  Cymerwyd a chofnodwyd yr ymddiheuriadau.	
<b>Eitem 4 Ystyried/Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2015</b>  Cafodd y cofnodion eu gwirio a'u cymeradwyo yn amodol ar rai diwygiadau ac ychwanegu 2 fater dan UFA a oedd yn ymwneud â Glastir a Phapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru ar Fynediad.	
<b>Eitem 5 Materion yn Codi o Gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2015</b>	

<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Gwasanaeth Archifau Sir Gaerfyrddin</b> – mae diweddariad wedi cael ei gylchredeg ers y cyfarfod diwethaf. Hysbysodd MH fod Bwrdd Gweithredol CSC wedi cytuno y byddai'r Gwasanaeth Archifau yn aros yn Sir Gaerfyrddin.</li> <li>• <b>Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheoli Cŵn)</b> – Hysbysodd MH ei fod wedi anfon neges e-bost at Michael Roberts, Uned Gorfodi Materion Amgylcheddol CSC, ar ôl y cyfarfod yn cadarnhau cefnogaeth y Fforwm Mynediad Lleol i'r cynigion. Roedd cadarnhad wedi dod i law bod Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) ac Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) wedi cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad ynghylch y cynigion.</li> <li>• <b>Ymgynghoriad gan CNC ynghylch y Canllawiau Drafft ar gyfer Adolygu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy</b> – dywedodd GW y byddai'n cael gafael ar gopi o ymateb y Cerddwyr er gwybodaeth.</li> <li>• <b>Fferm Wynt Fforest Brechfa</b> – cadarnhaodd MH ei fod wedi ysgrifennu at RWE npower ynglŷn â'r pryderon a oedd gan y Fforwm Mynediad Lleol ynghylch y broses ymgynghori a'u bod nhw wedi cynnig cwrdd. Roedd MH wrthi'n trafod gyda JG i drefnu dyddiad ar gyfer y cyfarfod.</li> <li>• <b>Llwybr Caniataol Glastir</b> – gofynnodd y Fforwm Mynediad Lleol i Glastir a allai'r llwybr yng Nghilycwm gael ei ddefnyddio gan farchogion ceffylau neu a oedd yn bosibl i'r llwybr sy'n dod i ben mewn gwylfan ar fryn barhau y tu hwnt i hynny. Roedd Glastir wedi ymateb gan ddweud na fyddai'r llwybr yn addas i farchogion ceffylau a bod y tir ymhellach i'r de mewn tîr feddiannaeth wahanol (y tu allan i gynllun Glastir) ac felly na fyddai'n bosibl parhau â'r llwybr na'i gysylltu â hawliau tramwy cyhoeddus na ffordd cyhoeddus eraill.</li> </ul>	<b>MH/ JG</b>
<p><b>Eitem 6 Cynllunio – Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol</b></p> <p>Roedd y Fforwm Mynediad Lleol eisoes wedi cael ei hysbysu y byddai'r eitem hon yn cael ei gohirio tan y cyfarfod nesaf ym mis Mai.</p>	
<p><b>Eitem 7 Y Ddeddf Teithio Llesol - diweddariad</b></p> <p>Roedd JT wedi cael diweddariad trwy'r e-bost gan uned Strategaeth Trafnidiaeth ac Isadeiledd CSC yn nodi'r broses ac yn cadarnhau bod y gwaith gan CSC i fapio'i lwybrau presennol wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2016. Gofynnodd MH i PS a oedd CNC wedi dweud yn benodol wrth Awdurdodau Lleol sut ac i ba raddau y dylent ymgynghori â Fforymau Mynediad Lleol. Gellid tybio bod y gofynion o ran ymgynghori wedi'u nodi yn Neddf Teithio Llesol (Cymru) 2014.</p>	
<p><b>Eitem 8 Adolygu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy – diweddariad</b></p> <p>Cadarnhaodd MH fod y Fforwm Mynediad Lleol wedi cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch Canllawiau Drafft ar gyfer Adolygu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy gan CNC yn mynegi pryder ynghylch cyllid ar gyfer gweithredu. Roedd y Cyngor yn disgwyl am y canllawiau terfynol gan CNC/Llywodraeth Cymru. Dywedodd JT ei bod yn debygol y byddai CSC yn sefydlu gweithgor i symud yr adolygiad yn ei flaen. Byddai'r Cyngor yn ymgynghori â'r Fforwm</p>	

Mynediad Lleol fel rhan o'r broses adolygu.

## Eitem 9 Proses Gorchymyn Gwyro – trosolwg gan JT

Dosbarthodd JT siart llif a oedd yn egluro'r broses ar gyfer Gorchymyn Gwyro dan a.119 o Ddeddf Priffyrdd 1980. Ymgynghorir â'r Fforwm Mynediad Lleol ar gamau amrywiol yn y broses honno. Y cyfle gorau i'r Fforwm Mynediad Lleol ddylanwadu ar y broses, codi unrhyw bryderon ynghylch y cynnig neu wneud awgrymiadau oedd yn ystod yr **Ymgynghoriad Cyntaf (Cyn Gorchymyn)** a anfonir gan CSC yn dilyn cael cais a chyn bod unrhyw benderfyniad ynghylch gwneud Gorchymyn wedi cael ei wneud. Fel arfer, gwahoddir ymatebion o fewn 28 diwrnod. Ar y cam hwn mae'n llawer haws ymdrin ag addasiadau i gynnwys y cynnig neu lwybr y gwyrriad. Gall y swyddog yn CSC sy'n ymdrin â'r cais ystyried a thrafod pryderon neu farn a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad gyda'r ymgeisydd/ymgeiswyr. Efallai y bydd y cynnig yn cael ei newid o ganlyniad. Os gwneir newidiadau, bydd yr ymgynghoreion yn cael eu hysbysu.

Bydd **Ail Ymgynghoriad** (Ymgynghoriad ynghylch Gwneud Gorchymyn/Ar Ôl Gwneud Gorchymyn) yn cael ei gynnal os bydd CSC yn penderfynu bod y cynnig yn rhesymol h.y. ei fod yn bodloni'r meini prawf deddfwriaethol a bod Gorchymyn Gwyro wedi cael ei wneud. Ymgynghoriad statudol am 28 diwrnod yw hwn. Mae costau wedi cael eu hysgwyddo'n barod ar y cam hwn gan fod Hysbysiadau ynghylch yr ymgynghoriad wedi cael eu cyhoeddi yn y wasg leol. Gan fod y Gorchymyn wedi cael ei wneud nid yw wir yn bosibl gwneud unrhyw newidiadau iddo ar y cam hwn. Os ceir gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn yn ystod yr ymgynghoriad statudol hwn ac os na chânt eu tynnu'n ôl caiff y Gorchymyn ei atgyfeirio fel arfer at yr Arolygiaeth Gynllunio a bydd Arolygydd Cynllunio'n penderfynu a ddylid cadarnhau'r Gorchymyn ai peidio. Mae hon yn broses lafurus i bob parti felly mae'n llawer gwell bod unrhyw faterion mewn perthynas â'r cynnig yn cael sylw yn ystod yr **Ymgynghoriad Cyntaf** cyn bod unrhyw Orchymyn wedi cael ei wneud. Fodd bynnag, os yw'r Fforwm Mynediad Lleol yn anghytuno â barn CSC ynglŷn â'r Gorchymyn, yna wrth gwrs y gall ei wrthwynebu o hyd, sy'n debygol o arwain at atgyfeirio'r mater at yr Arolygiaeth Gynllunio.

Y **Trydydd** achlysur pan gysylltir â'r Fforwm Mynediad Lleol yw pan fo CSC yn cadarnhau'r Gorchymyn. Ar ôl yr Ail Ymgynghoriad fydd hyn os na fydd unrhyw wrthwynebiadau nad ymdriniwyd â hwy. Cyflwynir Hysbysiad Cadarnhau i'r Fforwm Mynediad Lleol. Ei ddiben mewn gwirionedd yw cadarnhau wrth y Fforwm Mynediad Lleol bod y Gorchymyn yr ymgynghorwyd ag ef yn ei gylch yn flaenorol yn cael ei gadarnhau. Erbyn y cam hwn dim ond yn yr Uchel Lys ac ar sail rhyw afreolaidd-dra cyfreithiol y gellir herio'r Gorchymyn felly mae'n rhy hwyr i fod yn trafod rhinweddau'r cynnig neu'n awgrymu newidiadau i'r llwybr neu'r dodrefn arfaethedig a.y.b.

Gofynnodd GW sut y mae'r Fforwm Mynediad Lleol yn ymdrin â'r ymgynghoriadau hyn ar hyn o bryd. Dywedodd MH ei fod e'n cael yr e-bost fel y Cadeirydd oddi wrth CSC ac yna'n anfon yr ymgynghoriadau ymlaen at aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol trwy'r e-bost gan ofyn iddynt fwydo unrhyw farn yn ôl iddo ef yn uniongyrchol neu/ac i'r swyddog yn CSC sy'n ymdrin â'r cais.

Gofynnodd RL a ellid trefnu bod copi caled o Lawlyfr y Fforwm Mynediad Lleol yn cael ei anfon ato.

JT

<p><b>Eitem 10 Rhaglen Waith Gwelliannau Grant – diweddariad gan NP</b></p> <p>Cafodd yr eitem hon ei symud o Eitem 11 ar yr Agenda. Roedd Nigel Powell (Uwch Barcmon CSC) yn bresennol yn lle Alan Warner (Rheolwr Gweithrediadau Cefn Gwlad CSC). Dosbarthodd NP adroddiadau a oedd yn manylu ar waith a oedd wedi cael ei wneud/yn yr arfaeth trwy'r Grant Partneriaeth ar gyfer Cydweithio a Grant y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn ystod 2014/2015. Gofynnodd MH a ellid darparu cyfeirnodau grid yn y dyfodol.</p> <p>Darparodd NP siart ac adroddiad a oedd yn dangos Materion o ran hawliau tramwy cyhoeddus a oedd wedi'u datrys yn ôl categori yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Dywedodd NP y byddai'n ddefnyddiol cael gwybodaeth am nifer y Materion sydd heb eu datrys.</p> <p>Darparodd NP ffotograffau ac adroddiadau cwblhau manwl pellach ar gyfer llwybrau penodol hefyd. Er y byddai'r Fforwm Mynediad Lleol yn ddiolchgar am yr wybodaeth mae wir yn well ganddynt ystadegau sy'n dangos y darlun ar y cyfan am y flwyddyn.</p> <p>Gofynnodd y Fforwm Mynediad Lleol a fyddai adroddiad llawn ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2015/16 yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf.</p>	<p><b>AW</b></p> <p><b>AW</b></p>
<p><b>Eitem 11 Dodrefn Hawliau Tramwy Cyhoeddus (Gatiau/Camfeydd a.y.b.) – Cyfrifoldeb JT</b></p> <p>Dosbarthodd JT wybodaeth o'r adain Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar wefan CSC sy'n rhoi gwybodaeth i dirfeddiannwyr am eu cyfrifoldebau sylfaenol mewn perthynas â hawliau tramwy cyhoeddus, sy'n cynnwys cynnal a chadw gatiau a chamfeydd (a.146 o Ddeddf Priffyrdd 1980 – dosbarthwyd copi o'r adran). Eglurodd JT fod y Ddeddf yn caniatáu i CSC gyflwyno hysbysiad i dirfeddiannwr os yw gât neu gamfa neu strwythur mewn cyflwr adfeiliedig a gwneud y gwaith yn niffyg camau gan y tinfeddiannwr os oes angen (gan ailgodi am y costau). Os yw'r tinfeddiannwr yn gwneud y gwaith dan y broses hon, mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol gyfrannu dim llai na 25% o'r costau. Yn ymarferol, mae llawer o Awdurdodau Lleol (gan gynnwys CSC) yn darparu neu'n gosod dodrefn er budd defnyddwyr heb fynd drwy'r gweithdrefnau uchod sydd braidd yn feichus ac yn mynd ag amser.</p>	
<p><b>Eitem 12 Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol - diweddariad MH</b></p> <p>Mae MH wedi llunio Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer blwyddyn galendr 2015 a oedd wedi cael ei ddisbarthu i aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol er mwyn iddynt wneud sylwadau arno. Cafodd y drafft ei drafod ac roedd yr aelodau'n meddwl bod llunio adroddiad blynyddol ffurfiol yn unol â'r rheoliadau'n ffordd ddefnyddiol o godi proffil y Fforwm Mynediad Lleol.</p> <p>Gofynnodd MH i CSC ddarparu map o ardal y Fforwm Mynediad Lleol. Cytunwyd y gallai Ymgylgoreion Statudol CSC ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus fod yn sail i restr ddisbarthu ar gyfer yr adroddiad.</p>	<p><b>JT</b></p>

<p>Dywedodd JT y byddai'n trefnu bod yr Adroddiad yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg unwaith y byddai'n barod er mwyn gallu ei osod ar wefan CSC a hwyluso'r broses o'i ddsbarthu.</p>	<p><b>JT</b></p>
<p><b>Eitem 13 Achos Cyfreithiol – Herrick v Kidner a Somerset County Council 2010 - CR</b></p> <p>Eglurodd CR bwysigrwydd yr achos hwn a oedd yn ailbwysleisio bod gan y cyhoedd hawl i ddefnyddio lled llawn hawl dramwy gyhoeddus (lle'r oedd y lled hwnnw wedi'i ddiffinio neu lle gellid ei ddiffinio). Roedd yr achos yn ymwneud â gathiau mawr yn Barcroft Hall yr oedd yn rhaid eu gwaredu'n gyfan gwbl. Nid oedd yn ddigon gwaredu'r prif gathiau a'r golofn ganol – roedd yn rhaid gwaredu'r colofnau allanol a rhan o'r wal ochr hefyd gan eu bod yn dal i greu rhwystr i ran o led cyfreithiol yr hawl dramwy gyhoeddus. Dosbarthwyd crynodeb a chopi o'r achos.</p>	
<p><b>Eitem 14 Recriwtio - JT</b></p> <p>Roedd tri aelod wedi cael eu cadarnhau yn y cyfarfod diwethaf ond nid oedd ceisiadau cyfredol na cheisiadau yn yr arfaeth i ymuno â'r Fforwm Mynediad Lleol.</p>	
<p><b>Eitem 15 Eitemau i'w Rhoi ar yr Agenda yn y Dyfodol</b></p> <p>Cynllunio – Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (trosolwg gan Richard Jones, Swyddog Rheoli Datblygu CSC).</p>	
<p><b>Eitem 16 Unrhyw Fater Arall</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Datblygu Cynllun Cyrchfan Twristiaeth</b> – Roedd JG wedi bod mewn cyfarfod ar gyfer llysgenhadon Twristiaeth a hysbysodd y byddai'r Fforwm Mynediad Lleol yn cael ei gynnwys yn y broses hon.</li> <li>• <b>Llwybr beicio Sustrans ym Mhorth Tywyn</b> – Cyfeiriodd JG at y cynnig hwn a bydd yn darparu mwy o fanylion trwy'r e-bost neu yn y cyfarfod nesaf.</li> <li>• <b>Cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)</b> – Fe wnaeth PS gyflwyno Glyn Lloyd-Jones a fyddai'n cynrychioli CNC yng nghyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol yn y dyfodol (mwy na thebyg o leiaf ddau y flwyddyn lle'r oedd eitemau perthnasol ar yr Agenda).</li> <li>• <b>Cyfarfod i drafod y Llwybr Beicio newydd o'r Fenni i Landeilo</b> – Roedd MH wedi bod mewn cyfarfod i drafod y Llwybr newydd yma sydd ar y ffordd ac a fydd yn dod yn rhan o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (NCN)</li> <li>• <b>Syniadau am Arfer Gorau</b> – Gwnaeth MH sylwadau am neges e-bost oddi wrth Swyddog Hawliau Tramwy yng Ngheredigion at CNC a oedd yn awgrymu y gellid dosbarthu syniadau am arfer gorau ar gyfer Fforymau Mynediad Lleol.</li> </ul>	<p><b>JG</b></p>
<p><b>Eitem 15 Dyddiad/Lleoliad Cyfarfodydd yn y Dyfodol</b></p> <p>Roedd dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol wedi cael eu cadarnhau a'u dosbarthu ac maent ar gael ar wefan y Cyngor:</p> <p><a href="http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/hamdden-a-gweithgareddau/hawliau-tramwy-cyhoeddus/fforwm-mynediad-lleol/#.V9v7bJgrKhc">http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/hamdden-a-gweithgareddau/hawliau-tramwy-cyhoeddus/fforwm-mynediad-lleol/#.V9v7bJgrKhc</a></p>	

Nos Iau 12 Mai - 6pm	Ystafell Gynadledda Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Llawr 1af, Heol Llansteffan, Caerfyrddin SA31 3NQ	
Nos Iau 22 Medi - 6pm	Ystafell Gynadledda Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Llawr 1af, Heol Llansteffan, Caerfyrddin SA31 3NQ	
Nos Iau 8 Rhagfyr - 6pm	Ystafell Gynadledda Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Llawr 1af, Heol Llansteffan, Caerfyrddin SA31 3NQ	